COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Gorffennaf 18fed, 2018 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Alun Jones (Cadeirydd), O. Hefin Roberts (Is-gadeirydd), Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, William B. Williams, Cyng. Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebydd)

YMDDIHEURIADAU

Cyng. John B. Hughes (Cyngor Gwynedd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chynhaliwyd munud o dawelwch er cof am y diweddar **Gynghorydd Andrew T. Weir** – cynhaliwyd ei angladd brynhawn heddiw a chynrychiolwyd y Cyngor gan nifer o'r aelodau. Diolchodd Cyng. Dewi W. Roberts, fel ffrind, am gefnogaeth pawb yn ystod ei waeledd ac yn yr angladd heddiw.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Cyng. Owi Lloyd-Jones fuddiant personol yng nghais cynllunio C18/0584/39/CC – Torri coeden – Min-y-Don, Lôn Pont Morgan, Aber-soch , oherwydd mai ei gais ei hun ydoedd fel perchennog y safle; gadawodd y cyfarfod pan y'i trafodwyd.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fehefin 13eg, 2018 yn gywir ar ôl cywiro nad oedd Cyng. Wyn Griffiths yn bresennol ynddo.

3. **EITEMAU BRYS (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Ni dderbyniwyd dim.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C18/0423/39/LL	Dymchwel tŷ presennol ac adeiladu un newydd yn ei le – Bryn Rhedyn, Bwlchtocyn **[Cyflwynwyd sylwadau cyn cyfarfod heno – Cefnogir]**
C18/0493/39/LL	**Cais Diwygiedig** i adeiladu estyniad a gwneud addasiadau yn cynnwys gosod ffenestri gromen – Hornblow Cottage, Llanengan **[Cyflwynwyd sylwadau cyn cyfarfod heno – Cefnogir cyn belled â bod y ffenestri'r un arddull, h.y. 'ffrâm' o'u hamgylch]**
C18/0506/39/MG	Materion a gadwyd yn ôl ar gyfer adeiladu tŷ annedd a ffordd fynediad newydd – Tir ger Gilfach Goed, Lôn Pen Cei, Aber-soch **[Cyflwynwyd sylwadau cyn cyfarfod heno – Cedwir at yr un sylwadau a gyflwynwyd â'r**

cais blaenorol, sef gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad ar safle cyfyng, tu allan i'r ffin datblygu ac mewn man amlwg o fewn AHNE Llŷn]

C18/0526/39/LL Estyniad ac addasiadau – 4 Cae Du, Aber-soch – **Cefnogir**

C18/0551/39/LL Amrywio Amodau 6 a 7 ar Ganiatâd Cynllunio C11/1055/39/LL er mwyn diwygio cyfnod meddiannu gwyliau – Capel Bethlehem, Cilan **– Cefnogir**

C18/0578/39/CC Torri dwy goeden sydd yn destun Gorchymyn Gwarchod Coed **–** Plot ger Gorse Bank, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Cedwir at yr un sylwadau â gyflwynwyd â'r cais blaenorol, sef gwrthwynebir oherwydd rhoddir amod am reswm ac mae'r coed yn iach a rhan o dirlun hanesyddol ac etifeddol ardal yr Harbwr a Phen Bennar**

C18/0582/39/LL Dymchwel tŷ a ddifrodwyd gan dân a chodi un newydd yn ei le – Pant y Wennol, Mynytho – **Cefnogir**

C18/0584/39/CC Torri coeden – Min-y-Don, Lôn Pont Morgan, Aber-soch **– Cefnogir, gan nad yw'n goeden iach ac y dylid gosod amod y plennir coeden aeddfed yn hytrach nag un ifanc yn ei lle [Datgan Diddordeb – OLJ]**

C18/0591/39/LL Ffurfio decing i'r blaen – Wharfedale, Lôn Rhoslyn, Aber-soch **– Cefnogir**

C18/0599/39/LL Teras to i'r ail lawr – 4 Pen y Bont, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd eu bod yn dai newydd y gwyddai'r prynwyr beth oedd eu cynllun wrth eu prynu ac y byddai'n ddechrau cynsail i berchnogion y gweddill wneud cais cyffelyb**

5. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth Bethan Hughes, Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg. Yn yr un modd, ni dderbyniwyd dim oddi wrth Dîm Gwarchod y Cyhoedd na'r Gwasanaeth Cynllunio parthed toiledau caffi Marchros.

Cafwyd trafferth â drws y merched – gwelwyd rhai yn curo'r blwch derbyn arian a thorrwyd y darn a ddaliai'r gwahanol geiniogau tu mewn. O ganlyniad i hyn a'r broblem trydanol â'r clo 'override', gofynnwyd i beiriannydd Healthmatic ddod draw – daeth bore 'ma a dywedodd y cysylltai pe bai problem; ni wnaeth hyd yma. Yn ystod y cyfnod yma, talodd W. a G. Williams dâl mynediad y gofalwr (gweler cofnod 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod); diolchir i WBW am ei gymwynas.

b) **Meddygfa Aber-soch**

Gwerthwyd yr adeilad erbyn hyn ond, ni wyddys i bwy na beth yw bwriad y perchennog newydd.

[Gadawodd Cyng. Dewi W. Roberts y cyfarfod ar ôl trafod yr uchod.]

c) **10. Gohebiaeth: d) Cefnogaeth Gorfforaethol – Hunan*iaith***

Ceisir trefnu dosbarthu'r pecynau o amgylch Aber-soch yr wythnos nesaf.

ch) **10. Gohebiaeth: a) Un Llais Cymru: vi) Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref – Mae Angen eich Help!**

Cynhelir sesiwn wybodaeth i randdeiliad yn Llandrindod ar Awst 15fed i rannu'r canfyddiadau cychwynnol ac egluro argymhellion y Panel.

d) **10. Gohebiaeth: b) Siôn Gwilym – Mapio'ch Cyngor**

Fe'i derbyniwyd a'r anfoneb (gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod) erbyn hyn ag awgrym o gwmni ar y we i'w argraffu; penderfynwyd holi'r argraffdy ym Mhwllheli am bris, ynghyd ag anfon copi o'r ffeil at y Cynghorwyr sydd â chyfrifiadur.

6. **MYNWENT**

a) **Barbio Clawdd Terfyn y Bwlch**
Derbyniwyd cais oddi wrth y contractwr torri gwellt am gael caniatâd barbio (credai na fyddai dim mwy na dau gan punt), gan fod cymaint o ddrain ac ati'n dod trwy'r ffens ac, o ganlyniad, yn achosi pynjars yn ei dorrwr gwellt; penderfynwyd caniatáu.

7. **CAEAU CHWARAE**

a) **Archeb Archwiliad Blynyddol**
Cynhelir yr archwiliadau ar Orffennaf 26ain – cysylltir â G.L. Jones i ofyn pryd yn union y gosodir y darnau a archebwyd, gan obeithio y gwneir cyn yr archwiliadau.

b) **Cynrychiolwyr Cwmnïau/Amcanbrisiau Offer**
Derbyniwyd prisiau oddi wrth Wicksteed, G.L. Jones, Back on Track (traciau beic), Caloo. Ni chysylltwyd â chynrychiolydd PlayQuest fel y bwriadwyd yn y cyfarfod diwethaf; teimlwyd bod digon o brisiau wedi dod i law. Er sgwrsio â chynrychiolydd HAGS drannoeth y cyfarfod diwethaf a ddywedodd y dylai'r gweinyddwyr yn y swyddfa fod wedi cysylltu i drefnu dyddiad, ni wnaed ac, o ganlyniad, penderfynwyd peidio parhau â'r ymholiad. Trafodir y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth rieni Ysgol Foel Gron yn yr Is-bwyllgor pan eir trwy'r amcanbrisiau.

c) **Paentio'r Offer**
Cysylltwyd eto â Melfyn Pritchard ac addawodd y crafai'r paent cyn i'r archwiliwr ddod ar (gweler a) uchod) Orffennaf 26ain.
[Gofynnwyd iddo ailbaentio lloches bws Parciau Mynytho hefyd, gan nad yw'r un a'i ddifrododd wedi ymateb i'r cais i'w adfer; cytunodd wneud hynny hefyd.]

8. **CYFRIFON**

a) **Un Llais Cymru – Paratoi Cyllideb 2018 – 2019 – Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**
Trafodir y gydnabyddiaeth yng nghyd-gyfarfod Un Llais Cymru a SLCC yn Llandudno ym mis Medi – gobeithia'r Clerc ei fynychu.

b) **Cyflog y Clerc**
Ni chysylltwyd â Bacstal Pac eto – gobeithir gwneud yr wythnos nesaf.

c) **Archwiliad Ariannol – Mewnol ac Allanol 2017 – 2018**
Anfonwyd y ddogfennaeth i BDO erbyn Gorffennaf yr ail, sef dyddiad yr archwiliad.

ch) **Penodi Archwliwr Mewnol 2018 – 2019**
Anfonwyd llythyr at Archwilwyr Cyngor Gwynedd i'w gwahodd fod yn Archwilwyr Mewnol y flwyddyn ariannol bresennol eto, ynghyd â diolch am gydweithrediad y swyddogion; bu'n ddidrafferth iawn.

d) **Wayleave Cyn-westy'r Harbwr, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd yr ad-daliad a addawodd ScottishPower ar gyfer yr uchod ar Fehefin 28ain.

dd) **Rhent Cae'r Plwyf, Mynytho**
Cysylltodd merch y diweddar ddeilydd a dywedodd y rhoddai'r rhent dyledus (£16.00) i'r Cadeirydd ond, ni dderbyniodd o hyd yma; penderfynwyd y gallai barhau â rhentu'r tir.

9. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned/Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach am y siale/cwt yn Fronheulog, Lôn Garmon, nac am yr ymholiadau blaenorol a wnaed fisoedd yn ôl bellach – cysylltir â'r Adran eto.

b) **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC): Datganiad Ysgrifenedig**
Derbyniwyd copi cyflawn o'r uchod.

c) **Apêl Cais Cynllunio Maes Carafannau Pant Gwyn Cottage Caravan Park, Sarn Bach, a Thir ger Ty'n-y-Cae, Llangïan**
Derbyniwyd hysbysiad o'r uchod ac anfonwyd sylwadau'r Cyngor eisoes.

ch) **Cynefin – Stád Cornwall, Mynytho**
Derbyniwyd gohebiaeth y gwerthwyd wyth tŷ erbyn hyn ac y deil Plot 2 ar ôl. Ychwanegir os na ellir ei werthu erbyn diwedd mis Medi, ceisir ei osod ar rent canolraddol, h.y. rhaid i'r unigolion gyrraedd y meini prawf a nodir ar safle Tai Teg.

10. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Y Fach – Cynllun a Chyfyngiadau Parcio**
Derbyniwyd ateb i'r cwestiwn pam na ddefnyddir y peiriannau talu ar ôl eu gosod – materion cyfreithiol heb eu cwblhau.

b) **Torri Gwair Ochr Ffordd**
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth y Gwasanaeth Bwrdeistrefol parthed yr uchod er y cysylltodd Alun Roberts, Peiriannydd Ardal Dwyfor, â'r Rheolwr Gweithredol iddo gysylltu'n uniongyrchol.

c) **Gwerthu Ceir/Cychod/Tractorau yng Nghilfan Tre Warren**
Nid oes gwaharddiadau parcio yn perthyn i'r gilfan ac, o ganlyniad, ni all y Cyngor gymryd camau gorfodaeth yn erbyn perchnogion y cerbydau; gall unigolion wneud.

11. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

Hysbyswyd Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, fod llwybr Fron Green yn wlyb iawn. Dechreuodd y ddau gontractwr dorri'r llwybrau.

12. **RHEOLIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL (GDPR)**

Deallwyd y derbyniwyd cydsyniad brenhinol i ddileu'r angen i gynghorau cymuned a thref benodi Swyddog Diogelu Data. Penderfynwyd cofrestru â'r ICO – credir mai'r gost fydd £35.00 (gweler cofnod 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod). Derbyniwyd copi Saesneg o'r polisïau sydd eu hangen (GDPR Cyffredinol , gan gynnwys Atodiad o Dablau Cofrestru Asedau Gwybodaeth a Chyfnodau Cadw; Preifatrwydd Cyffredinol, Rhybudd Preifatrwydd ar gyfer Gwefan) ar gyfer yr uchod oddi wrth siaradwraig y cyfarfod yng Nghaernarfon ac, er yr addawodd gopïau Cymraeg ohonynt at fis Mehefin, ni dderbyniwyd hwy. O ganlyniad i'r brys ar gyfer eu mabwysiadu, cysylltwyd â chlercod eraill a'i fynychodd i ofyn beth wnaethant hwy ac atebodd Clerc Caernarfon drwy ddweud y talodd ei Chyngor am eu cyfieithu a bod pob croeso i ni eu defnyddio. Yn yr un modd, cysylltodd Clerc Llanrug i ddweud fod pob croeso i ni ddefnyddio ac addasu ei ddogfennaeth yntau; penderfynwyd eu mabwysiadu ar ôl eu haddasu.

13. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Ymarfer Monitro Blynyddol ar y Côd Ymarfer Diwygiedig ar Faterion y Gweithlu – Y Côd Dwy Haen***
Llythyr dyddiedig Mai 17eg yn gofyn am ymateb erbyn Mehefin 7fed ond, ni dderbyniwyd o tan Fehefin 20fed.

ii) ***Cyfeirlyfr Charles Arnold Baker***
Cynnig arbennig gan y cyhoeddwr – degfed argraffiad yr uchod i'w gael am hanner y gost arferol, sef £53.00 + £7.00 cludiant; penderfynwyd ei archebu.

iii) ***Bwletin mis Mehefin***
Ni argraffwyd dim ohono.

iv) ***Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol – Thema: 'Rôl Cynghorau Cymuned a Thref i'r Dyfodol'***
Hysbysiad o'r uchod a gynhelir ym Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, ddydd Sadwrn, Medi 29ain; neb am fynd.

b) **Cyngor Gwynedd**

i) ***Cynnig Gofal Plant***
Cais i arddangos posteri i hyrwyddo'r ymgyrch uchod, sef annog teuluoedd cymwys gymryd eu hawl i ofal plant am ddim drwy'r cynnig Gofal Plant 30 awr a chynyddu'r nifer o warchodwyr plant er mwn sicrhau digonolrwydd.

ii) ***Gwasanaeth Ieuenctid***
Llythyr yn egluro'r drefn newydd ar gyfer yr uchod; penderfynwyd ei drosglwyddo i Bwyllgor Neuadd Aber-soch, gan mai yno cynhelir y Clwb Ieuenctid.

14. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C18/0098/39/LL	Dymchwel cwt glan môr presennol a chodi un newydd **–** Cwt Glan Môr Ynys Fawr, Borth Fawr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C18/0283/39/LL	Dymchwel ac ailgodi tŷ deulawr newydd – Fferm Corn, Cilan **– Gwrthodwyd**
C18/0379/39/LL	Adeiladu estyniad, gosod ffenestr gromen yn y modurdy, defnyddio to fflat fel teras ac addasiadau – Pen y Môr, Lôn Golff, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0418/39/LL	Dymchwel tŷ presennol ac adeiladu un newydd ar yr un safle, ynghyd â datblygiadau cysylltiad bach – Cartrefle Bach, Aber-soch **– Gwrthodwyd**
C18/0421/39/LL	Adeiladu estyniad deulawr ochr, ynghyd ag addasiadau a gwelliannau i'r eiddo – Roslyn, Lôn Rhoslyn, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0431/39/LL	Cais Ôl-weithredol ar gyfer dymchwel ac ailgodi tŷ annedd, ynghyd ag estyniad bwriadedig deulawr ac addasu adeiladau allanol – Frondeg, Llanengan **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0436/39/DA	Ail-leoli ffenestr to – 1 Bryn Llawen, Llanengan **– Caniatawyd ag amodau**

15. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Gorffennaf (Rh/S 002155) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Dŵr Cymru – £258.28 (Rh/S 0012151– Cyflenwad Dŵr a Gwasanaeth Charthffosiaeth y Toiledau)
b) Siôn Gwilym – £18.00 (Rh/S 0012152 – Map o'r Gymuned)
c) Casglwr Trethi – £1.49 (Rh/S 0020153 – Talu Wrth Ennill)
ch) Williams a Williams – £198.00 (Rh/S 002154 – Dadflocio Traeniau'r Toiledau)

d) W. a G. Williams – £37.20 (Rh/S 002156 – Ad-daliad Arian Mynediad Glanhawr y Toiledau
dd) ICO – £35.00 (Rh/S 002157 – Tâl Aelodaeth)

Derbyniadau

a) Toiledau – £386.90 (Tâl Mynediad – £36.20, £91.40, £71.50, £34.80, £12.00, £87.30, £17.30 a £36.40)
b) G.D. Roberts a'i Fab – £160.00 (Bedd Newydd)

16. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Medi 12fed, 2018 am saith o'r gloch